## Cynhyrchwyd ar ran AQA, CBAC, CCEA, OCR a Pearson

# Hysbysiad i Ganolfannau – diogelwch papurau cwestiynau

Gan fod cyfres arholiadau haf 2019 yn prysur agosáu, roeddem am eich roi gwybod i chi am newid pwysig i'r rheoliadau 'ICE' yn ogystal â'r broses o uwchgyfeirio unrhyw ddigwyddiadau torri diogelwch.

**'Ail bâr o lygaid i wirio'**

Un o hanfodion sicrhau gonestrwydd arholiadau yw cynnal diogelwch arholiadau. Gwyddom fod canolfannau a staff y swyddfa arholiadau'n gweithio'n galed i gefnogi'r cyrff dyfarnu â'r broses o gynnal diogelwch papurau cwestiynau.

Yn anffodus, bob blwyddyn, mae nifer bach o ganolfannau'n agor un neu fwy o becynnau o bapurau cwestiynau ar y diwrnod anghywir. Y rhan fwyaf o'r amser, sylweddolir bod hyn wedi digwydd cyn mynd â'r papurau cwestiynau i mewn i'r ystafell(oedd) arholi penodol. Ond, mewn rhai achosion, bydd ymgeiswyr wedi sefyll rhywfaint o'r papur neu'r papur i gyd cyn darganfod y gwall. Hyd yn oed os yw'r gwall wedi'i ganfod yn fuan, ym mhob achos mae elfen o risg wedi'i chyflwyno i'r system arholiadau. Gall fod canlyniadau sylweddol iawn i gamgymeriadau o'r fath.

Gyda'r bwriad o leihau'r risg o hyn yn digwydd, cyflwynodd cyrff dyfarnu'r CGC y drefn 'gwiriad ail bâr o lygaid' i'w gyhoeddiad *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau* (y llyfryn ICE) (www.jcq.org.uk/exams-office/ice---instructions-for-conducting-examinations).

Yn Adran 18.1 y llyfryn ICE, mae'n nodi: *"I osgoi'r posibilrwydd o dorri diogelwch yr arholiad rhaid cymryd pob gofal i wirio bod y pecynnau papurau cwestiynau cywir yn cael eu hagor. Rhaid i aelod ychwanegol o staff y ganolfan, a allai fod yn oruchwyliwr, wirio diwrnod, dyddiad, amser, pwnc, uned/cydran a haen gofrestru'r papur, os yn briodol, cyn agor y pecyn o bapurau cwestiynau.* 'Gwiriad ail bâr o lygaid' yw'r enw sy'n cael ei ddefnyddio'n aml ar gyfer hyn.

**Yng nghyfres arholiadau haf 2019** a phob cyfres wedi hynny, mae gofyn i ganolfannau sicrhau eu bod yn cadw cofnodion o gynnal y 'gwiriad ail bâr o lygaid'. **Rhaid** cynnwys y wybodaeth ganlynol yn y cofnodion:

- enw a rhif y ganolfan;
- dyddiad yr arholiad;
- corff dyfarnu, cod yr uned/cydran;
- enwau, llofnodion a swyddi'r ddau unigolyn wnaeth wirio'r manylion ar y papur cwestiynau **cyn** agor y pecyn.

Efallai y bydd Arolygydd Canolfannau'r CGC a/neu staff y corff dyfarnu yn gwirio'r cofnodion. Efallai y gofynnir amdanyn nhw os bydd unrhyw bryderon yn cael eu mynegi i gorff dyfarnu. **Rhaid** eu cadw ar ffeil tan y bydd y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r marcio wedi pasio neu tan y bydd unrhyw apêl, ymholiad am gamymddwyn neu ymholiad arall am ganlyniadau wedi'i gwblhau, pa bynnag un sydd hwyraf.

Er mwyn cynorthwyo canolfannau i fodloni'r gofyniad hwn, datblygodd cyrff dyfarnu'r CGC enghraifft o dempled i'w defnyddio – https://www.wjec.co.uk/exam-officers/related-documents.html?category=examOfficers

Nid ydych yn gorfod defnyddio'r ffurflen hon ond gallech ei haddasu neu greu eich ffurflen eich hun i'w defnyddio i gofnodi'r 'gwiriad ail bâr o lygaid'.

**Toriadau diogelwch**

Er gwaethaf y ffaith bod pawb yn gwneud popeth y gallant i'w hosgoi, ar adegau prin mae posibilrwydd y bydd toriadau diogelwch yn digwydd. Mae'r cyrff dyfarnu wedi hen arfer ymdrin â'r rhain a gallant roi'r arweiniad priodol i chi.

Os oes posibilrwydd bod toriad diogelwch wedi digwydd a phapurau cwestiynau wedi'u rhoi i'r ymgeiswyr ar y diwrnod anghywir neu yn y sesiwn anghywir, **rhaid** i chi:

- sicrhau bod pob ymgeisydd yn aros yn yr ystafell(oedd) arholi dan oruchwyliaeth y ganolfan
- sicrhau eich bod yn casglu'r papurau cwestiynau anghywir oddi wrth yr ymgeiswyr ond ddim yn mynd â nhw o'r ystafell(oedd) arholi
- cysylltu **ar unwaith** â'r corff dyfarnu perthnasol am gyfarwyddiadau pellach

**Rhaid** i chi hysbysu'r corff dyfarnu perthnasol ar unwaith os bydd eich ymgeiswyr neu aelodau o staff y ganolfan yn rhoi gwybod i chi am doriad diogelwch posibl. Gall unigolion roi gwybod am bryderon o'r fath yn ddienw i'r corff dyfarnu. Mae ganddyn nhw dimau ymchwilio toriadau diogelwch sy'n brofiadol o ran derbyn a phrosesu adroddiadau cyfrinachol.

Gellir cysylltu â'r cyrff dyfarnu fel a ganlyn:

- AQA - Rhif Ffôn: 0161 958 3736
- CBAC - Rhif Ffôn 02920 265474
- CCEA - Rhif Ffôn: (028) 9026 1215
- OCR - Rhif Ffôn: 01223 553998
- Pearson - Rhif Ffôn 0344 463 2535

Gwnewch yn siŵr bod pob aelod o staff y swyddfa arholiadau a'r goruchwylwyr yn gwybod sut i ymdrin â thoriadau diogelwch posibl.

Rydym yn ddiolchgar i chi am barhau i'n cynorthwyo er mwyn sicrhau bod yr arholiadau'n mynd rhagddynt yn ddidrafferth.